# DEDDF COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU ETC. 2013

# Gorchymyn Torfaen (Cymunedau) 2026

*Gwnaed* - - - - ***[27/05/2026]***

*A ddaw i rym yn unol ag erthygl 1(2)*

Mae Cyngor Sir Torfaen (“y Cyngor”), yn unol ag adran 25 Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 (“Deddf 2013”), wedi cyflwyno adroddiad i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (“y Comisiwn”) dyddiedig 2 Rhagfyr 2025 ar ei arolwg o drefniadau cymunedol yn Sir Torfaen a’i argymhellion ar gyfer newidiadau iddynt.

Mae’r Comisiwn wedi cytuno i weithredu argymhellion y Cyngor gydag addasiadau sy’n pennu’r wardiau cymunedol yr effeithir arnynt gan argymhellion y Cyngor, ac mae’r Cyngor wedi cytuno ar yr addasiadau.

Mae mwy na chwe wythnos wedi mynd heibio ers i argymhellion y Cyngor gael eu cyflwyno i’r Comisiwn.

Mae’r Comisiwn yn gwneud y Gorchymyn canlynol wrth arfer y pŵer a roddir iddo gan adran 38(1) Deddf.

**Teitl a chychwyn**

1. - (1) Teitl y Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Torfaen (Cymunedau) 2026.

(2) Daw’r Gorchymyn hwn i rym yn yr etholiad llywodraeth leol nesaf.

**Dehongli**

2. Yn y Gorchymyn hwn–

> Mae “Map ##” yn golygu’r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Sir Torfaen ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato ar ddiwedd y Gorchymyn hwn yn Atodlen 1;

lle dangosir ffin ar fap sy’n mynd ar hyd ffordd, llinell reilffordd, troedffordd, cwrs dŵr neu nodwedd ddaearyddol debyg, dylid ei thrin fel petai’n mynd ar hyd llinell ganol y nodwedd;

mae cyfeiriad at gymuned neu ward gymunedol “bresennol” yn golygu’r gymuned neu’r ward gymunedol fel y bodolai ar y diwrnod cyn y daw’r Gorchymyn hwn i rym;

mae cyfeiriad at gymuned neu ward gymunedol “flaenorol” yn golygu cymuned neu ward gymunedol sy’n cael ei diddymu gan y Gorchymyn hwn;

mae cyfeiriad at gymuned neu ward gymunedol “newydd” yn golygu cymuned neu ward gymunedol sy’n cael ei chreu gan y Gorchymyn hwn;

mae gan eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn y Gorchymyn hwn yr un ystyr ag yn Rhan 3 Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013, ac eithrio i’r graddau y mae bwriad croes yn ymddangos.

**Newidiadau i ardal llywodraeth leol**

3. Gwneir newidiadau yn ardal llywodraeth leol Sir Torfaen yn unol â darpariaethau canlynol y Gorchymyn hwn.

**Croesyceiliog a Llanyrafon – newidiadau i ffiniau cymunedau a wardiau cymunedol**

4. Mae cymunedau presennol Croesyceiliog a Llanyrafon yn cael eu diddymu, ac mae cyngor cymuned presennol Croesyceiliog a Llanyrafon yn cael ei ddiddymu.

Croesyceiliog – creu cymuned newydd

5. Mae cymuned newydd yn cael ei chreu, a adwaenir fel Croesyceiliog yn Gymraeg a Saesneg, ac sy'n:

a. cynnwys ardal cymuned flaenorol Croesyceiliog, ynghyd ag ardal ward gymunedol flaenorol Gorllewin Llanyrafon (o gymuned flaenorol Llanyrafon), yn ddarostyngedig i'r newidiadau ychwanegol a nodir yn y Gorchymyn hwn; ac

b. a ddangosir gan Fap 1.

Cymuned newydd Croesyceiliog – trefniadau wardiau cymunedol

6. Mae ward gymunedol newydd yn cael ei chreu yng nghymuned newydd Croesyceiliog a adwaenir fel Gogledd Croesyceiliog yn Gymraeg a Croesyceiliog North yn Saesneg, ac sy'n:

a. cynnwys ardal ward gymunedol flaenorol Gogledd Croesyceiliog, yn ddarostyngedig i'r newidiadau ychwanegol a nodir yn y Gorchymyn hwn; ac

b. a ddangosir gan Fap 2.

7. Mae ward gymunedol newydd yn cael ei chreu yng nghymuned newydd Croesyceiliog a adwaenir fel De Croesyceiliog yn Gymraeg a Croesyceiliog South yn Saesneg, ac sy'n:

a. cynnwys ardal ward gymunedol flaenorol De Croesyceiliog, yn ddarostyngedig i'r newidiadau ychwanegol a nodir yn y Gorchymyn hwn; ac

b. a ddangosir gan Fap 2.

8. Mae ward gymunedol newydd yn cael ei chreu yng nghymuned newydd Croesyceiliog a adwaenir fel Gorllewin Llanyrafon yn Gymraeg a Llanyrafon West yn Saesneg, ac sy'n:

a. cynnwys ardal ward gymunedol flaenorol Gorllewin Llanyrafon yng nghymuned flaenorol Llanyrafon, yn ddarostyngedig i'r newidiadau ychwanegol a nodir yn y Gorchymyn hwn; ac

b. a ddangosir gan Fap 2.

Cymuned newydd Croesyceiliog – newidiadau i ffiniau a newidiadau i wardiau cymunedol

9. Mae'r rhan o ward gymunedol bresennol Northville yng nghymuned Canol Cwmbrân a ddangosir wedi'i lliwio'n felyn ar Fap 3:

a. yn cael ei throsglwyddo i gymuned newydd Croesyceiliog; ac

b. yn ffurfio rhan o ward gymunedol newydd Gogledd Croesyceiliog.

10. Mae'r rhan o ward gymunedol newydd De Croesyceiliog yng nghymuned newydd Croesyceiliog a ddangosir wedi'i lliwio ar Fap 4 yn cael ei throsglwyddo i ward gymunedol newydd Gogledd Croesyceiliog yng nghymuned newydd Croesyceiliog.

11. Mae'r rhan o ward gymunedol newydd Gorllewin Llanyrafon yng nghymuned newydd Croesyceiliog a ddangosir wedi'i lliwio ar Fap 5 yn cael ei throsglwyddo i ward gymunedol newydd De Croesyceiliog yng nghymuned newydd Croesyceiliog.

12. Mae'r rhan o ward gymunedol newydd De Croesyceiliog yng nghymuned newydd Croesyceiliog a ddangosir wedi'i lliwio ar Fap 6 yn cael ei throsglwyddo i ward gymunedol newydd Gorllewin Llanyrafon yng nghymuned newydd Croesyceiliog.

Cymuned newydd Croesyceiliog – trefniadau cyngor cymuned ac etholiadol

13. Mae cyngor ar gyfer cymuned newydd Croesyceiliog yn cael ei sefydlu a adwaenir fel Croesyceiliog a Llanyrafon yn Gymraeg a Croesyceiliog and Llanyrafon yn Saesneg.

14. Yng nghyngor cymuned newydd Croesyceiliog a Llanyrafon, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer ward gymunedol newydd –

a. Gogledd Croesyceiliog yw 6;

b. De Croesyceiliog yw 3;

c. Gorllewin Llanyrafon yw 3.

**Canol Cwmbrân – newid canlyniadol i drefniadau etholiadol**

15. Mae'r rhan o ward gymunedol bresennol Northville yng nghymuned Canol Cwmbrân a ddangosir wedi'i lliwio ar Fap 7 yn cael ei throsglwyddo i ward gymunedol Southville.

16. Mae cymuned bresennol Pontnewydd yn cael ei diddymu, ac mae cyngor cymuned presennol Cwmbrân yn cael ei ddiddymu.

Pontnewydd – creu cymuned newydd

17. Mae cymuned newydd yn cael ei chreu, a adwaenir fel Pontnewydd yn Gymraeg a Saesneg, ac sy'n:

a. cynnwys ardal cymuned flaenorol Pontnewydd, yn ddarostyngedig i'r newidiadau ychwanegol a nodir yn y Gorchymyn hwn; ac

b. a ddangosir gan Fap 8.

Cymuned newydd Pontnewydd – newid i'r ffin

18. Mae'r rhan o ward gymunedol bresennol Dwyrain Cwmbrân Uchaf yng nghymuned bresennol Cwmbrân Uchaf a ddangosir wedi'i lliwio ar Fapiau 9 a 10 yn cael ei throsglwyddo i gymuned newydd Pontnewydd.

Cymuned newydd Pontnewydd – trefniadau wardiau cymunedol

19. Mae ward gymunedol newydd yn cael ei chreu yng nghymuned newydd Pontnewydd a adwaenir fel Pontnewydd yn Gymraeg a Saesneg, ac sy'n:

a. cynnwys ardal ward gymunedol flaenorol Mount Pleasant yng nghymuned flaenorol Pontnewydd ynghyd â rhan o ardal ward gymunedol flaenorol Lowlands ac Avondale yng nghymuned flaenorol Pontnewydd, yn ddarostyngedig i'r newidiadau ychwanegol a nodir yn y Gorchymyn hwn; ac

b. a ddangosir gan Fap 11.

20. Mae ward gymunedol newydd yn cael ei chreu yng nghymuned newydd Pontnewydd a adwaenir fel Pontrhydyrun yn Gymraeg a Saesneg, ac sy'n:

a. cynnwys rhan o ardal ward gymunedol flaenorol Lowlands ac Avondale yng nghymuned flaenorol Pontnewydd, ynghyd â'r rhan o ward gymunedol bresennol Dwyrain Cwmbrân Uchaf yng nghymuned bresennol Cwmbrân Uchaf sy'n cael ei throsglwyddo i gymuned newydd Pontnewydd yn unol ag erthygl 18 uchod, yn ddarostyngedig i'r newidiadau ychwanegol a nodir yn y Gorchymyn hwn; ac

b. a ddangosir gan Fap 11.

Cymuned newydd Pontnewydd – newidiadau ychwanegol i ffiniau

21. Mae'r rhan o ward gymunedol newydd Pontnewydd yng nghymuned newydd Pontnewydd a ddangosir wedi'i lliwio ar Fap 12:

a. yn cael ei throsglwyddo i gymuned Canol Cwmbrân; ac

b. yn ffurfio rhan o ward gymunedol Northville.

22. Mae’r rhan o ward gymunedol bresennol St Dials yng nghymuned Canol Cwmbrân a ddangosir wedi’i lliwio ar Fap 13:

a. yn cael ei throsglwyddo i gymuned newydd Pontnewydd; a

b. yn ffurfio rhan o ward gymunedol newydd Pontnewydd.

23. Mae’r rhan o ward gymunedol bresennol Northville yng nghymuned Canol Cwmbrân a ddangosir wedi’i lliwio ar Fap 14:

a. yn cael ei throsglwyddo i gymuned newydd Pontnewydd; ac

b. yn ffurfio rhan o ward gymunedol newydd Pontnewydd.

24. Mae’r rhan o ward gymunedol bresennol Northville yng nghymuned Canol Cwmbrân a ddangosir wedi’i lliwio ar Fap 15:

a. yn cael ei throsglwyddo i gymuned newydd Pontnewydd; ac

b. yn ffurfio rhan o ward gymunedol newydd Pontnewydd.

25. Mae’r rhan o ward gymunedol bresennol Dwyrain Cwmbrân Uchaf yng nghymuned Cwmbrân Uchaf a ddangosir wedi’i lliwio ar Fap 16:

a. yn cael ei throsglwyddo i gymuned newydd Pontnewydd; ac

b. yn ffurfio rhan o ward gymunedol newydd Pontnewydd.

26. Mae’r rhan o ward gymunedol bresennol Dwyrain Cwmbrân Uchaf yng nghymuned Cwmbrân Uchaf a ddangosir wedi’i lliwio ar Fap 17:

a. yn cael ei throsglwyddo i gymuned newydd Pontnewydd; ac

b. yn ffurfio rhan o ward gymunedol newydd Pontnewydd.

27. Mae’r rhan o ward gymunedol newydd Pontnewydd yng nghymuned newydd Pontnewydd a ddangosir wedi’i lliwio ar Fap 18:

a. yn cael ei throsglwyddo i gymuned Cwmbrân Uchaf;

b. yn ffurfio rhan o ward gymunedol Dwyrain Cwmbrân Uchaf.

Cymuned newydd Pontnewydd – trefniadau cyngor cymuned ac etholiadol

28. Mae cyngor ar gyfer cymunedau Canol Cwmbrân, Fairwater, Llantarnam, Cwmbrân Uchaf a chymuned newydd Pontnewydd yn cael ei sefydlu, a adwaenir fel Cwmbrân yn Gymraeg a Cwmbran yn Saesneg.

29. Yng nghyngor cymuned newydd Cwmbrân, nifer y cynghorwyr sydd i’w hethol:

a. Ar gyfer ward gymunedol Southville yng nghymuned Canol Cwmbrân yw 1;

b. Ar gyfer ward gymunedol Northville yng nghymuned Canol Cwmbrân yw 1;

c. Ar gyfer ward gymunedol St Dials yng nghymuned Canol Cwmbrân yw 2;

d. Ar gyfer ward gymunedol Dwy Loc yng nghymuned Canol Cwmbrân yw 2;

e. Ar gyfer ward gymunedol Fairwater yng nghymuned Fairwater yw 1;

f. Ar gyfer ward gymunedol Dol Werdd yng nghymuned Fairwater yw 1;

g. Ar gyfer ward gymunedol Tŷ Canol yng nghymuned Fairwater yw 2;

h. Ar gyfer ward gymunedol Coed Efa yng nghymuned Fairwater yw 1;

i. Ar gyfer cymuned Llantarnam yw 2;

j. Ar gyfer ward gymunedol newydd Pontnewydd yng nghymuned newydd Pontnewydd yw 3;

k. Ar gyfer ward gymunedol newydd Pontrhydyrun yng nghymuned newydd Pontnewydd yw 1;

l. Ar gyfer ward gymunedol Dwyrain Cwmbrân Uchaf yng nghymuned Cwmbrân Uchaf yw 1;

m. Ar gyfer ward gymunedol Gorllewin Cwmbrân Uchaf yng nghymuned Cwmbrân Uchaf yw 1; ac

n. Ar gyfer ward gymunedol Bryn Eithen yng nghymuned Cwmbrân Uchaf yw 1.

**Pont-hir – diddymu cymuned**

30. Mae cymuned bresennol Pont-hir yn cael ei diddymu, ac mae cyngor cymuned presennol Pont-hir yn cael ei ddiddymu.

Pont-hir – creu cymuned newydd

31. Mae cymuned newydd yn cael ei chreu, a adwaenir fel Pont-hir yn Gymraeg a Ponthir yn Saesneg, ac sy'n:

a. cynnwys yr ardal o gymuned flaenorol Pont-hir, ynghyd ag ardal ward gymunedol flaenorol Dwyrain Llanyrafon yng nghymuned flaenorol Llanyrafon, yn ddarostyngedig i'r newidiadau ychwanegol a nodir yn y Gorchymyn hwn; ac

b. a ddangosir gan Fap 19.

Cymuned newydd Pont-hir – trefniadau wardiau cymunedol

32. Mae ward gymunedol newydd yn cael ei chreu yng nghymuned newydd Pont-hir a adwaenir fel Pont-hir yn Gymraeg a Ponthir yn Saesneg ac sy'n –

a. cynnwys ardal cymuned flaenorol Pont-hir, yn ddarostyngedig i'r newidiadau ychwanegol a wneir yn y Gorchymyn hwn; ac

b. a ddangosir ar Fap 20.

33. Mae ward gymunedol newydd yn cael ei chreu yng nghymuned newydd Pont-hir a adwaenir fel Dwyrain Llanyrafon yn Gymraeg a Llanyrafon East yn Saesneg, ac sy'n –

a. cynnwys ardal ward gymunedol flaenorol Dwyrain Llanyrafon yng nghymuned flaenorol Llanyrafon, yn ddarostyngedig i'r newidiadau ychwanegol a wneir yn y Gorchymyn hwn; ac

b. a ddangosir ar Fap 20.

34. Mae'r rhan o ward gymunedol newydd Dwyrain Llanyrafon yng nghymuned newydd Pont-hir a ddangosir wedi'i lliwio'n felyn ar Fap 21 yn cael ei throsglwyddo i ward gymunedol newydd Pont-hir yng nghymuned newydd Pont-hir.

35. Mae'r rhannau o ward gymunedol newydd Pont-hir yng nghymuned newydd Pont-hir a ddangosir wedi'u lliwio'n binc ar Fap 21 yn cael eu trosglwyddo i ward gymunedol newydd Dwyrain Llanyrafon yng nghymuned newydd Pont-hir.

Cymuned newydd Pont-hir – trefniadau cyngor cymuned ac etholiadol

36. Mae cyngor ar gyfer cymuned newydd Pont-hir yn cael ei sefydlu a adwaenir fel Pont-hir yn Gymraeg a Ponthir yn Saesneg.

37. Yng nghyngor cymuned newydd Pont-hir, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer ward gymunedol newydd –

a. Pont-hir yw 5; a

b. Dwyrain Llanyrafon yw 2.

**Pont-y-moel – diddymu cymuned**

38. Mae cymuned bresennol Pont-y-moel yn cael ei diddymu, ac mae cyngor cymuned presennol Pont-y-pŵl yn cael ei ddiddymu.

Pont-y-moel – creu cymuned newydd

39. Mae cymuned newydd yn cael ei chreu, a adwaenir fel Pont-y-moel yn Gymraeg a Pontymoile yn Saesneg, ac sy'n:

a. cynnwys ardal wardiau cymunedol blaenorol Cwm-ynys-cou a Phont-y-pŵl yng nghymuned flaenorol Pont-y-moel, yn ddarostyngedig i'r newidiadau ychwanegol a nodir yn y Gorchymyn hwn; ac

b. a ddangosir gan Fap 22.

Cymuned newydd Pont-y-moel – trefniadau wardiau cymunedol

40. Mae ward gymunedol newydd yn cael ei chreu yng nghymuned newydd Pont-y-moel a adwaenir fel Pont-y-pŵl yn Gymraeg a Pontypool yn Saesneg, ac sy'n:

a. cynnwys ardal ward gymunedol flaenorol Pont-y-pŵl yng nghymuned flaenorol Pont-y-moel, yn ddarostyngedig i'r newidiadau ychwanegol a nodir yn y Gorchymyn hwn; ac

b. a ddangosir gan Fap 23.

41. Mae ward gymunedol newydd yn cael ei chreu yng nghymuned newydd Pont-y-moel a adwaenir fel Cwm-ynys-cou yn Gymraeg a Cwmynyscoy yn Saesneg, ac sy'n:

a. cynnwys ardal ward gymunedol flaenorol Cwm-ynys-cou yng nghymuned flaenorol Pont-y-moel, yn ddarostyngedig i'r newidiadau ychwanegol a nodir yn y Gorchymyn hwn; ac

b. a ddangosir gan Fap 23.

Pen Transh – diddymu cymuned

42. Mae cymuned bresennol Pen Transh yn cael ei diddymu.

Pen Transh – creu cymuned newydd

43. Mae cymuned newydd yn cael ei chreu, a adwaenir fel Pen Transh yn Gymraeg a Pen Tranch yn Saesneg, ac sy'n:

a. cynnwys ardal cymuned flaenorol Pen Transh ynghyd ag ardal ward gymunedol flaenorol Bryn-wern yng nghymuned flaenorol Pont-y-moel, yn ddarostyngedig i'r newidiadau ychwanegol a nodir yn y Gorchymyn hwn; ac

b. a ddangosir gan Fap 24.

Cymuned newydd Pen Transh – trefniadau wardiau cymunedol

44. Mae ward gymunedol newydd yn cael ei chreu yng nghymuned newydd Pen Transh a adwaenir fel Pen Transh yn Gymraeg a Pen Tranch yn Saesneg, ac sy'n:

a. cynnwys ardal ward gymunedol flaenorol Waunfelin yng nghymuned flaenorol Pen Transh ynghyd ag ardal ward gymunedol flaenorol Bryn-wern yng nghymuned flaenorol Pont-y-moel, yn ddarostyngedig i’r newidiadau ychwanegol a nodir yn y Gorchymyn hwn; ac

b. a ddangosir gan Fap 25.

45. Mae ward gymunedol newydd yn cael ei chreu yng nghymuned newydd Pen Transh a adwaenir fel Pontnewynydd yn Gymraeg a Saesneg, ac sy’n:

a. cynnwys ardal ward gymunedol flaenorol Pontnewynydd yng nghymuned flaenorol Pen Transh, yn ddarostyngedig i’r newidiadau ychwanegol a nodir yn y Gorchymyn hwn; ac

b. a ddangosir gan Fap 25.

46. Mae ward gymunedol newydd yn cael ei chreu yng nghymuned newydd Pen Transh a adwaenir fel Snatchwood yn Gymraeg a Saesneg, ac sy’n:

a. cynnwys ardal ward gymunedol flaenorol Snatchwood yng nghymuned flaenorol Pen Transh, yn ddarostyngedig i’r newidiadau ychwanegol a nodir yn y Gorchymyn hwn; ac

b. a ddangosir gan Fap 25.

Pant-teg – diddymu cymuned

47. Mae cymuned bresennol Pant-teg yn cael ei diddymu.

Pant-teg – creu cymuned newydd

48. Mae cymuned newydd yn cael ei chreu, a adwaenir fel Pant-teg yn Gymraeg a Panteg yn Saesneg, ac sy’n:

a. cynnwys ardal cymuned flaenorol Pant-teg, yn ddarostyngedig i’r newidiadau ychwanegol a nodir yn y Gorchymyn hwn; ac

b. a ddangosir gan Fap 26.

Cymuned newydd Pant-teg – trefniadau wardiau cymunedol

49. Mae ward gymunedol newydd yn cael ei chreu yng nghymuned newydd Pant-teg a adwaenir fel Sebastopol yn Gymraeg a Saesneg, ac sy’n:

a. cynnwys ardal wardiau cymunedol blaenorol Gorllewin Sebastopol a Dwyrain Sebastopol yng nghymuned flaenorol Pant-teg, yn ddarostyngedig i’r newidiadau ychwanegol a nodir yn y Gorchymyn hwn; ac

b. a ddangosir gan Fap 27.

50. Mae ward gymunedol newydd yn cael ei chreu yng nghymuned newydd Pant-teg a adwaenir fel Tref Gruffydd yn Gymraeg a Griffithstown yn Saesneg, ac sy’n:

a. cynnwys ardal wardiau cymunedol blaenorol Dwyrain Tref Gruffydd a Gorllewin Tref Gruffydd yng nghymuned flaenorol Pant-teg, yn ddarostyngedig i’r newidiadau ychwanegol a nodir yn y Gorchymyn hwn; ac

b. a ddangosir gan Fap 27.

51. Mae’r rhan o ward gymunedol newydd Sebastopol yng nghymuned newydd Pant-teg a ddangosir wedi’i lliwio’n felyn ar Fap 28 yn cael ei throsglwyddo i ward gymunedol newydd Tref Gruffydd yng nghymuned newydd Pant-teg.

Pont-y-pŵl – trefniadau cyngor cymuned ac etholiadol

52. Mae cyngor ar gyfer cymunedau Abersychan, Y Dafarn Newydd, Trefddyn a chymunedau newydd Pont-y-moel, Pen Transh a Phant-teg yn cael ei sefydlu, a adwaenir fel Pont-y-pŵl yn Gymraeg a Pontypool yn Saesneg.

53. Yng nghyngor cymuned newydd Pont-y-pŵl, nifer y cynghorwyr sydd i’w hethol ar gyfer:

a. ward gymunedol Garndiffaith a Varteg yng nghymuned Abersychan yw 2;

b. ward gymunedol Abersychan a Chwmafon yng nghymuned Abersychan yw 2;

c. ward gymunedol Trefddyn yng nghymuned Trefddyn yw 2;

d. ward gymunedol St Cadog a Phenygarn yng nghymuned Trefddyn yw 1;

e. ward gymunedol newydd Snatchwood yng nghymuned newydd Pen Transh yw 1;

f. ward gymunedol newydd Pontnewynydd yng nghymuned newydd Pen Transh yw 1;

g. ward gymunedol newydd Pen Transh yng nghymuned newydd Pen Transh yw 2;

h. ward gymunedol Y Dafarn Newydd Uchaf yng nghymuned Y Dafarn Newydd yw 2;

i. ward gymunedol Y Dafarn Newydd Isaf yng nghymuned Y Dafarn Newydd yw 2;

j. ward gymunedol newydd Cwm-ynys-cou yng nghymuned newydd Pont-y-moel yw 1;

k. ward gymunedol newydd Pont-y-pŵl yng nghymuned newydd Pont-y-moel yw 1;

l. ward gymunedol newydd Tref Gruffydd yng nghymuned newydd Pant-teg yw 2; a

m. ward gymunedol newydd Sebastopol yng nghymuned newydd Pant-teg yw 2.

**Newidiadau eraill i ffiniau cymunedol**

54. Mae'r rhan o gymuned bresennol Llantarnam a ddangosir wedi'i lliwio ar Fap 29:

a. yn cael ei throsglwyddo i gymuned Canol Cwmbrân; ac

b. yn ffurfio rhan o ward gymunedol Southville.

55. Mae'r rhan o ward gymunedol bresennol Dwy Loc yng nghymuned Canol Cwmbrân a ddangosir wedi'i lliwio ar Fap 30 yn cael ei throsglwyddo i gymuned Llantarnam.

56. Mae'r rhan o ward gymunedol bresennol Dwy Loc yng nghymuned Canol Cwmbrân a ddangosir wedi'i lliwio ar Fap 31 yn cael ei throsglwyddo i gymuned Henllys.

57. Mae'r rhan o ward gymunedol bresennol Coed Efa yng nghymuned Fairwater a ddangosir wedi'i lliwio ar Fap 32:

a. yn cael ei throsglwyddo i gymuned Canol Cwmbrân; ac

b. yn ffurfio rhan o ward gymunedol Dwy Loc.

58. Mae'r rhan o ward gymunedol bresennol Dwy Loc yng nghymuned Canol Cwmbrân a ddangosir wedi'i lliwio ar Fap 33:

a. yn cael ei throsglwyddo i gymuned Fairwater; ac

b. yn ffurfio rhan o ward gymunedol Coed Efa.

59. Mae'r rhan o ward gymunedol bresennol Dol Werdd yng nghymuned Fairwater a ddangosir wedi'i lliwio ar Fap 34:

a. yn cael ei throsglwyddo i gymuned Cwmbrân Uchaf; ac

b. yn ffurfio rhan o ward gymunedol Bryn Eithen.

60. Mae'r rhan o ward gymunedol bresennol Bryn Eithen yng nghymuned Cwmbrân Uchaf a ddangosir wedi'i lliwio ar Fap 35:

a. yn cael ei throsglwyddo i gymuned Fairwater; ac

b. yn ffurfio rhan o ward gymunedol Dol Werdd.

61. Mae'r rhan o gymuned bresennol Henllys a ddangosir wedi'i lliwio ar Fap 36:

a. yn cael ei throsglwyddo i gymuned Fairwater; ac

b. yn ffurfio rhan o ward gymunedol Coed Efa;

62. Mae'r rhan o ward gymunedol newydd Pont-y-pŵl yng nghymuned newydd Pont-y-moel a ddangosir wedi'i lliwio ar Fap 37:

a. yn cael ei throsglwyddo i gymuned Trefddyn; ac

b. yn ffurfio rhan o ward gymunedol St Cadog a Phenygarn.

63. Mae'r rhan o ward gymunedol bresennol St Cadog a Phenygarn yng nghymuned Trefddyn a ddangosir wedi'i lliwio ar Fap 38:

a. yn cael ei throsglwyddo i gymuned newydd Pont-y-moel; ac

b. yn ffurfio rhan o ward gymunedol newydd Pont-y-pŵl.

64. Mae'r rhan o ward gymunedol newydd Cwm-ynys-cou yng nghymuned newydd Pont-y-moel a ddangosir wedi'i lliwio ar Fap 39:

a. yn cael ei throsglwyddo i gymuned newydd Pen Transh; ac

b. yn ffurfio rhan o ward gymunedol newydd Pen Transh.

65. Mae'r rhan o ward gymunedol newydd Pen Transh yng nghymuned newydd Pen Transh a ddangosir wedi'i lliwio ar Fap 40:

a. yn cael ei throsglwyddo i gymuned newydd Pont-y-moel; ac

b. yn ffurfio rhan o ward gymunedol newydd Cwm-ynys-cou.

66. Mae'r rhan o ward gymunedol newydd Pen Transh yng nghymuned newydd Pen Transh a ddangosir wedi'i lliwio ar Fap 41:

a. yn cael ei throsglwyddo i gymuned newydd Pont-y-moel; ac

b. yn ffurfio rhan o ward gymunedol newydd Cwm-ynys-cou.

67. Mae'r rhan o ward gymunedol newydd Pont-y-pŵl yng nghymuned newydd Pont-y-moel a ddangosir wedi'i lliwio ar Fap 42:

a. yn cael ei throsglwyddo i gymuned newydd Pant-teg; ac

b. yn ffurfio rhan o ward gymunedol newydd Tref Gruffydd.

68. Mae'r rhan o ward gymunedol newydd Tref Gruffydd yng nghymuned newydd Pant-teg a ddangosir wedi'i lliwio ar Fap 43

a. yn cael ei throsglwyddo i gymuned newydd Pont-y-moel; ac

b. yn ffurfio rhan o ward gymunedol newydd Pont-y-pŵl.

Wedi'i selio â sêl Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ar y **27ain diwrnod o Fai 2026**

**[27/05/2026]**

*Karen Jones*

Cadeirydd

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw’r nodyn hwn yn rhan o’r Gorchymyn)*

Mae’r Gorchymyn hwn, a wnaed yn unol ag adran 38(1) Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 (“Deddf 2013”), yn gweithredu argymhellion a wnaed gan Gyngor Sir Torfaen (“y Cyngor”). Adroddodd y Cyngor ym mis Rhagfyr 2025 ar ei arolwg o dan adran 25 Deddf 2013 o ffiniau cymunedol.


Argymhellodd yr adroddiad newid i ffiniau cymunedau Torfaen. Mae’r gorchymyn hwn yn gwneud newidiadau i ffiniau’r cymunedau hynny.

Mae copïau argraffedig o fapiau ffiniau y mae’r Gorchymyn hwn yn ymwneud â nhw wedi’u hadneuo a cheir eu harchwilio yn ystod oriau swyddfa arferol yn swyddfeydd Cyngor Sir Torfaen **ac yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ (yr Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Leol)**.

**Atodlen 1**

**Map 1**


## Cymuned Croesyceiliog




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]


**Map 2**

# Wardiau Cymuned Croesyceiliog





(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]

**Map 3**


Ardal ward Northville i ward Gogledd Croesyceiliog
0
0.2
Cilomedrau
Graddfa1:3,104
Ardal i drosglwyddo o ward De Croesyceiliog i ward Gogledd Croesyceiliog
Ardal i drosglwyddo o ward Northville i ward Gogledd Croesyceiliog
Cymuned Croesyceiliog
Ward Gogledd Croesyceiliog
Ward Northville
Cymuned Canol Cwmbrân
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]

## Map 4


# Ardal ward De Croesyceiliog i ward Gogledd Croesyceiliog




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]

**Map 5**


## Ardal ward Gorllewin Llanyrafon i ward De Croesyceiliog




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]

**Map 6**


## Ardal ward De Croesyceiliog i ward Gorllewin Llanyrafon




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]


**Map 7**

# Ardal ward Northville i ward Southville




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]


**Map 8**



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]


**Map 9**

# Ardal Cwmbrân Uchaf i Gymuned Pontnewydd





(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]

**Map 10**





(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]

**Map 11**




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]


**Map 12**




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]

**Map 13**

# Ardal ward St Dials i ward Pontnewydd




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]


**Map 14**

## Ardal ward Northville i ward Pontnewydd (1)




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]


**Map 15**




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]

**Map 16**


## Ardal ward Dwyrain Cwmbrân Uchaf i ward Pontnewydd area (1)




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]

**Map 17**


## Ardal ward Dwyrain Cwmbrân Uchaf i ward Pontnewydd (2)




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]


## Map 18

# Ardal ward Pontnewydd i ward Dwyrain Cwmbrân Uchaf




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]


**Map 19**




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]

**Map 20**


# Wardiau Cymuned Pont-hir




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]


**Map 21**

## Ardal ward Pont-hir i ward Dwyrain Llanyrafon




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]


**Map 22**



Cymuned Pont-y-moel
0
1
Cilomedrau
Graddfa 1:21,680
Cymuned
Pont-y-moel
Pontypool
Pontymoel
Cwm Fields
Penyrheol
Upper Race
Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
Local Democracy and Boundary Commission For Wales
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]


**Map 23**

Wardiau Cymuned Pont-y-moel




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]


**Map 24**



Cymuned Pen Transh
Cymuned Pen Transh
0
2
Cilomedrau
Graddfa 1:27,780
Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
Local Democracy and Boundary Commission For Wales
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]

**Map 25**


Wardiau Cymuned Pen Transh




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]


**Map 26**

## Cymuned Pant-teg





(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]

**Map 27**





(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]

**Map 28**




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]


**Map 29**




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]

**Map 30**


## Ardal ward Dwy Loc i Gymuned Llantarnam




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]


**Map 31**

## Ardal ward Dwy Loc i Henllys





(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]

**Map 32**


Ardal ward Coed Efa i ward Dwy Loc
0
0.01
Cilomedrau
Graddfa1:236.6
Ardal i drosglwyddo o ward Coed Efa i ward Dwy Loc
Cymuned
Canol Cwmbrân
Ward
Dwy Loc
Ward
Coed Efa
Cymuned
Fairwater
35
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]


**Map 33**

# Ardal ward Dwy Loc i ward Coed Efa




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]


**Map 34**



Ardal ward Dol Werdd i ward Bryn Eithen
0
0.05
Cilomedrau
Graddfa 1:1,011
Ardal i drosglwyddo o ward Dol Werdd i ward Bryn Eithen
Cymuned
Cwmbrân Uchaf
Ward
Bryn Eithen
Ward
Dol Werdd
Cymuned
Fairwater
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]

**Map 35**


# Ardal ward Bryn Eithen i ward Dol Werdd




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]

Map 36


## Ardal Henllys i ward Coed Efa




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]

**Map 37**


# Ardal ward Pont-y-pŵl i ward St Cadog a Phenygarn




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]

**Map 38**


# Ardal ward St Cadog a Phenygarn i ward Pont-y-pŵl




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]


**Map 39**

# Ardal ward Cwm-ynys-cou i ward Pen Transh





(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]


**Map 40**


Ardal ward Pen Transh i ward Cwm-ynys-cou
Ardal i drosglwyddo o ward Pen Transh i ward Cwm-ynys-cou
Cymuned Pen Transh
Ward Pen Transh
Cymuned Pont-y-moel
Ward Cwm-ynys-cou
A 472
0
0.05
Cilomedrau
Graddfa 1:1,099
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]

**Map 41**



Ardal ward Pen Transh i ward Cwm-ynys-cou (2)
Ardal i drosglwyddo o ward Pen Transh i ward Cwm-ynys-cou (2)
0
0.2
Cilomedrau
Graddfa 1:2,919
Ward
Pen Transh
Cymuned
Pen Transh
Ward
Cwm-ynys-cou
Cymuned
Pont-y-moel
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]

**Map 42**



Ardal ward Pont-y-pŵl i ward Tref Gruffydd
Ardal i drosglwyddo o ward Pont-y-pŵl i ward Tref Gruffydd
Cymuned Pont-y-moel
Cymuned Pant-teg
Ward Pont-y-pŵl
Ward Tref Gruffydd
0
0.1
Cilomedrau
Graddfa 1:1,603
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]

**Map 43**




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]